# CYFARFOD CYNGOR BRO - COFNODION

**Dydd Mawrth 30fed Medi 2025 – 6:30yh**

**Festri Rhos Y Gad, Llanfairpwll**

**Presennol:**

| **Ward Braint** | | **Ward Gwyngyll** |
|---|---|---|
| Stephen Edwards (Cadeirydd) | | Gareth Cemlyn Jones |
| Alun Jones | | Gwynfor Parry |
| Ian Roberts | | John Roberts |
| Bethan Williams | | Medwyn Roberts |
| Glesni Parry | | Meirion Jones |
| | | |
| **Cynghorwr Sirol:** | Robin Williams | |
| **Clerc:** | | |

| **1.0** | **Ymddiheuriadau** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| | **Cynghorwyr Sirol** -<br>Sonia Williams, Dyfed Jones | | |
| **2.0** | **Datganiadau o Ddiddordeb** | | |
| | | | |
| **3.0** | **Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 3.1 | **Cyngor Bro**<br>• Arwydd Gorsaf Drenau – IG yn cyfarthrebu gyda Trafnidiaeth i Gymru.<br>• Cynllun Gweithredu – Prif amcanion Y Cyngor ar gyfer 2025/2026.<br>• Cytundebau – Disgwyl ymateb swyddogol gan Cymdeithas Maes Eilian.<br>• SE i gysylltu gyda DJ am ei bresenoldeb. | Clerc<br><br><br><br>SE | Gorffennaf 2025<br><br><br><br>MFAPH |
| 3.2 | **Amgylchedd ac Eiddo**<br>• Fynwent Newydd – Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc i geisio am ail ddyfynbris. | Clerc | MFAPH |
| 3.3 | **Cyllid**<br>• Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill. | Clerc | MFAPH |
| 3.4 | **Neuadd Goffa** | Clerc | MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y cytuneb – Wedi derbyn ymateb gan y cyfreithwyr yn datgan bod y mater yn nwylo cyfreithwyr perchennog y ffordd.<br>• Polisiau | | |
| 3.5 | **Y Fynwent**<br>• Fynwent Newydd –Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc i geisio am ail ddyfynbris. | | |
| **4.0** | **Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**. | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>• **Llys Eilian** – Camau cyfreithiol wedi cychwyn i adennill yr arian sy'n ddyledus. Mae dal ddryswch ynghylch pwy sydd berchen y darn o'r palmant sydd heb ei gwblhau ond mae'r adran briffyrdd yn dal i gyfathrebu hefo cynrychiolwyr Rectory Developments. Beth sy'n bryderus ydi'r ffaith fod trigolion y stad yma methu gwerthu eu tai gan and ydi cwmnïau morgais cau benthyg gan nad ydi'r datblygiad wedi ei gwblhau.<br>• **Allanfa Co-Op -** Sawl un wedi cysylltu ynghylch yr allanfa o faes parcio Co-Op. Mae hi'n beryglus wrth ddod allan i'r ffordd ac mae hi'n anodd gweld beth sy'n dod o'r ochr dde yn enwedig. Wedi adrodd i'r adran briffyrdd ac yn edrych i'w drafod ymhellach fel rhan o'r sgyrsiau ehangach am draffig yn y pentref.<br>• **Mynediad i Orsaf Llanfair –** Mynedfa yn anaddas (tua Caergybi) sy'n anaddas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu rhieni gyda pram. Mewn cysylltiad gyda Trafnidiaeth Cymru ac yn gobeithio gallu cyfarfod ar y safle'n fuan.<br>• **Bont Menai –** Cyfarfod ar gyfer diweddariad wedi cael ei ohirio. | | |
| **5.0** | **Ceisiadau Cynllunio** | | |
| 5.1 | Cais Cynllunio: FPL/2025/147 Siop Y Fron, Ffordd Caergybi / Holyhead Road, Llanfairpwll | | |
| 5.2 | Cais Cynllunio: HHP/2025/157 Llys Menai, Pen Y Berth, Llanfairpwll | | |
| **6.0** | **Penderfyniadau Cynllunio** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Tan y Coed, 7 Collen Wen, Llanfairpwll - Caniatau | | |
| 6.2 | Trefin, Ffordd Penmynydd / Penmynydd Road, Llanfairpwll | | |
| 6.3 | Tir i'r Gogledd o / Land North of, Y Garnedd, Llanfairpwll | | |
| 6.4 | Refail Goch, Llanfairpwll | | |
| 6.5 | Hafod Awelon, 1 Fron Deg, Llanfairpwll | | |
| **7.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 15.07.2025** | | |
| 7.1 | Stephen Edwards yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, John Roberts yn eilio. | | |
| **8.0** | **Cyflwyno cofnodion Cyfarfod Neuadd Goffa 09.09.2025** | | |
| 8.1 | Cyflwyno'r cofnodion yn y cyfarfod.<br><br>Materion yn codi o'r cofnodion –<br><br>• Angen cadw cofnod o gwynion ynglŷn a'r Clwb Snwcer.<br>• Llongyfarch y Clwb ar eu llwyddiant.<br>• Oes posib cael noson agored 1 y mis ar gyfer y pentrefwyr.<br>• Llongyfarch AJ a GP ar eu llwyddiant gyda'r grant ar gyfer y cyfrifiaduron newydd. | Clerc<br><br>Clerc | <br><br>MFAPH |
| 9.0 | **Cyflwyno cofnodion Cyfarfod Amgylchedd ac Eiddo 09.09.2025** | | |
| 9.1 | Cyflwyno'r cofnodion yn y cyfarfod.<br><br>Materion yn codi o'r cofnodion-<br>• Cytunwyd i gynnig tocynnau blynyddol i'r rhai sydd yn defnyddio y maes parcio am bris o £300.00. MR i drafod ymhellach.<br>• Clerc i gael dyfynbris am bolyn ar gyfer symud yr arwydd talu ac arddangos yn y maes parcio.<br>• Clerc i gael pris am system ANPS yn y maes parcio. | MR<br><br>Clerc<br><br>Clerc | MFAPH<br><br>MFAPH<br><br>MFAPH |
| **10.0** | **Cyfrifon a Thaliadau Mis Awst a Medi 2025** | | |
| 10.1 | • Awdurdodwyd i wneud y taliadau. | | |
| 10.2 | • Clerc i wirio anfoneb Festive Lighting am £886.18 | Clerc | |
| **11.0** | **Trafod** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 11.1 | **Pwyllgorau Y Cyngor Bro**<br>• Clerc i yrru rhestr o'r pwyllgorau i'r cynghorwyr er mwyn cael dethol pwy sydd yn eistedd ar pa pwyllgor.<br>• Pwyllgor Staffio angen ei ychwanegu i'r rhestr. | Clerc<br><br>Clerc | MFAPH<br><br>MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.2 | **Arolwg Traffig**<br>• MR yn diolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg.<br>• GCJ wedi creu adroddiad o'r arolwg.<br>• Clerc i rannu yr arolwg gyda Alun Roberts(CSYM) cyn y cyfarfod mis Hydref.<br>• BW ac AMJ yn cynnig ein bod yn rhannu y wybodaeth o'r cyfarfod cyhoeddus, pawb yn cytuno. | Clerc | MFAPH |
| 11.3 | **Grant Gofal Chwarae**<br>• Clerc wedi ceisio am y grant o £10,000 tuag at y cwrt 5 bob ochr.<br>• Byrddau cyfathrebu yn cael ei gosod yn y parc erbyn diwedd yr wythnos. | | |
| 11.4 | **Traffig ysgol**<br>• Clerc wedi derbyn cwyn am y traffig yn Nhrem Eryri, trafodwyd y buasem yn codi y mater yma gyda Alun Roberts (CSYM) yn y cyfarfod nesaf. | | |
| 11.5 | **Archwiliad mewnol 2024/2025 ac archwiliad allanol blwyddyn 23/24**<br>• Clerc i gylchredeg y ddau adroddiad i bawb.<br>• Cynghorwyr i ymateb yn ol erbyn 7fed Hydref 2025. | Clerc<br>PAWB | 01/10/2025<br>07/10/2025 |
| 11.6 | **Refail Goch, Llanfairpwll**<br>• Trafodwyd ein bod wedi derbyn ymateb gan Cyngor Sir Ynys Môn.<br>• Cynigwyd gan MJ ein bod yn ysgrifennu ar yr ombwdsman bod y Cyngor Sir heb gadw o fewn ysbryd y ddeddf o ran arddangos yr arwyddion cyhoeddus. Pawb yn cytuno yn unfrydol. | MJ | |
| 11.7 | **Grantiau**<br>• Clerc yn cynnig ein bod yn trafod manylion grantiau yn gyntaf cyn geisio am y cyllid. Pawb yn cytuno. | | |
| 11.8 | **Sedd Wag**<br>• Cafwyd cais ar gyfer y sedd wâg gan Rhian Cahill. Clerc i gysylltu gyda RC gyda'r penodiad. | | |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf – 25fed Hydref 2025 am 6.30yh | | |
| **** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU **** | | | |